# Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

## Digwyddiadur y Llywydd (Rhif 6: Ionawr–Mawrth 2019)

*Mae'r gweithgarwch a'r gwahoddiadau i fynychu digwyddiadau ac ymgynghoriadau yn parhau, a phleser yw cael cyhwfan baner y Cyngor.*

**Ionawr 9:** Mynychu cyfarfod arbennig o luosog o'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd** yn y Senedd. "Ydi carchardai yn gweithio?" oedd y testun, gyda'r Archesgob John Davies yn arwain a phanelwyr oedd yn cynnwys caplaniaid a chyn brif gwnstabl. Roedd yn gyfarfod bywiog gyda chyfraniadau cyfoethog o'r llawr.

**Ionawr 11:** Cyfarfod buddiol gyda'r **Parch Aled Edwards (Cytûn)** i drafod y gydberthynas rhyngom fel dau gorff.

**Ionawr 29:** Cyfarfod llwyddiannus gyda **Peredur Owen Griffiths** i gytuno a mireinio manylion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ar wefan newydd Cytûn.

**Mawrth 1:** Mynychu, trwy wahoddiad Cyngor Dinas Caerdydd, **Gwasanaeth Dinesig Dydd Gŵyl Dewi Cenedlaethol Cymru** yn Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Dewi Sant. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedicaf George Stack, Archesgob Caerdydd, ac ef a draddododd bregeth arbennig o briodol i'r amgylchiad.

**Mawrth 11:** Mynychu cyfarfod **Cyngor Rhyng-ffydd Cymru** – nifer o adroddiadau'n deillio o gyfarfodydd a fynychwyd gan gynrychiolwyr, a threuliwyd amser yn trafod digwyddiadau'r gorffennol a'r dyfodol ynghyd ag adroddiadau gan gynrychiolwyr o'r gwahanol ardaloedd. Nodwyd bod y wefan yn weithredol: interfaithcouncilwales.cymru. Hefyd, mae cyfrif trydar: @CymruInterfaith

Seland Newydd lle y lladdwyd 50 o Fwslimiaid a thros 40 wedi eu hanafu mewn gweithred derfysgol.

**Mawrth 26: Cinio blynyddol Cyngor Rhyng-ffydd Cymru**

Mynychu am y trydydd tro, ond yn cael ei gynnal yn Sain Ffagan y tro hwn ac, fel arfer, wedi ei drefnu gan Gyngor Mwslemaidd Cymru. Roedd dau siaradwr gwadd: y Parchedig Rowan Williams, y Barwn Williams o Ystumllwydiarth; a'r Athro Dr Wajli Kanso, Cyfarwyddwr y Royal Institute of Inter-Faith Studies; cafwyd anerchiad hefyd gan y prif westai, sef y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford. Cyflwynwyd gwobrau i'r tri siaradwr a hefyd i bum unigolyn arall sydd wedi gwneud cyfraniad clodwiw yn eu meysydd arbennig. Unwaith eto, roedd yn brofiad aruchel a dim ond edmygedd o'r modd y mae'r achlysur yn cael ei drefnu a'i gefnogi ar draws y gwahanol gredoau.

**GWEFAN CYNGOR EGLWYSI RHYDDION CYMRU**

Mae Peredur wedi ychwanegu adran newydd i'n gwefan: Materion Addysg. Mae'n ymgartrefu yng ngwefan Cytûn. Ar y dudalen Hafan, gwelir is-bennawd Partneriaid, ac o glicio yno gwelir Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Dilynwch y manylion ac fe welwch fod yna gyflwyniad cyffredinol a phedair adran, ynghyd â manylion yr hyn a welir ym mhob adran. Gellir hefyd gael mynediad uniongyrchol wrth roi Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn Google.

Mae ein dyled i Peredur yn fawr iawn am gyflawni hyn i gyd i Gyngor yr Eglwysi Rhyddion. Rydym yn awr yn perthyn i'r unfed ganrif ar hugain, diolch iddo fo!

*Rheinallt A Thomas,*
*Llywydd*
e bost: rheinallt@talktalk.net

